




## Gloÿn cynffon gwennol

Swallow tail butterfly, ni fyddwn yn gweld y gloÿn byw yma yng Nghymru, dwi wedi gweld rhai yn Norfolk, tynnais y llun yma yn ardal Extramadura, Sbaen, Mai 14.

Alun Williams

Ers i Alun dynnu'r lluniau hyn, mae'r gloÿn wedi cyrraedd de Lloegr. Meddai Alun ddechrau'r mis: "Ar Springwatch, heno, Mehefin 11, hanes y gloÿn byw cynffon gwennol cyfandirol wedi magu yn Ne Lloegr am y tro cyntaf". Mae'r is-rhywogaeth o ddwyrain Anglia yn llai crand na'r newydd-ddyfodiad medde nhw.



Roedd y cymylau trawiadol hyn i'w gweld o Benygroes, Dyffryn Nantlle ar fore Sul y 18fed o Fai 2014.

Gwyn Williams

Dyma'r sefyllfa synoptig (dde) a esgorodd ar y patrwm hynod hwn

## 15 Mai 2014 ar y lon beics ger Caernarfon.



Llun: Gill Brown

Dyma gerdd am gnwd hadau'r helyg gan y bardd Llydewig Anjela Duval

*Bisigoù gwenn an halegenn  
O tishilañ gant an aezhenn...  
Erc'h dumek o nijal skañv  
Dreist ar prad. Dreist ar porzh.  
'Us d'an ti. El liorz.  
Skanvoc'h eget erc'h goañv  
Malzennou gwenn  
O tiskenn Goustad, a-led war an douar  
Ur gwiskad tanav erc'h klouar:  
Pok Mezheven  
D'ar Glenn.*

Cywion gwyddau gwynion yr helyg / Wedi eu rhyddhau gan yr awel.... / Hedfaniad ysgafn y plu eira / Uwchben y ddol. Uwchben y cwrt. / Uwchben y ty. Yr ardd. / Ysgafnach nag eira gaeaf / Yw cwmp y plu / Sydd yn dyner gorchuddio'r pridd / Gyda'u cwrlid o eira cynnes / Cusan Mehefin / Yn y dyffryn.

Diddorol bod y bardd yn son am hyn ym mis Mehefin. Gol.

Yn cytuno - mae nhw fel eira, roeddwn yn eistedd ym maes parcio gwaelod Ysbyty Gwynedd ddechrau'r wythnos [tua 14 Mai] a meddyliais am ennyd ei bod yn bwrw eira nes imi sylweddoli mae'r helyg oedd yn gollwng eu hadau

**Olwen Evans**

Sylwais ar weddillion y cnwd o hadau blewog ar y lon beics ger Caernarfon ar y 22 Mehefin, yn un stomp bler ar y tarmac. A dywedodd fy nghydfeciwr a oedd newydd dreulio ychydig ddyddiau yn Cambrai, Picardie, bod y plu yn chwythu'n helaeth ar y gwynt ar y 25 Mai. Anjela, be sy'n bod arnoch chi deudwch?!



Titw Tomos Las yn brysur yn bwydo'r cywion, 4 ohonynt.



Llun: Netta Pritchard

## Gaeaf 2014 – trem yn ol, o Benisarwaun

Gaeaf 2014 / Mae'n hysbys i bawb mai gaeaf gwlyb, gwyntog a mwyn a gawsom eleni. Serch hynny bu eira ar y mynyddoedd uchaf am gyfnodau hir. Ond gwyntoedd cryfion a glaw trwm oedd yn nodweddu Ionawr a Chwefror; ar ben hyn cawsom felt, taranau a chenllysg, ond bron dim eira na rhew. Ar y 12fed o Chwefror collwyd cyflenwad trydan ym mhentrefi'r fro. Yr oedd Chwefror 14eg a 15fed yn stormus y tu hwnt gyda 2.5 modfedd o law yn disgyn. Yn Ionawr a Chwefror mi fwriodd hi ar 53 o ddyddiau gan roi 18 modfedd o law i ni. Canlyniad y tywydd garw yma oedd; llifogydd, difrod i adeiladau, a gwnaed llanastr difrifol i arfordir Cymru. Arhosodd esgryn eira [lluwch eira] ar y Carneddau, y Glyder, Cwm Glas [Crib y Ddysgl] ond nid felly yn yr enwog Ffos Ddofn. Ar yr 11eg o Ebrill doedd na ddim eira yno o gwbl. Yr oedd esgryn eira yng Nghwm Glas a Charnedd Llywelyn ar y 30ain o Ebrill. Y diwrnod olaf i mi weld olion eira oedd yng Nghwm Glas o dan Grib y Ddysgl ar y 4ydd o Fai.

**Les Larsen**



## Pryfyn bach di-nod



Lleoliad: SH471531  
Dyddiad tynnwyd y llun: 08/05/14

Gwn nad ydi pryfaid bach di nod yn ennyn llawer o ddiddordeb, ond, rhag ofn ei fod o ddiddordeb i rywun, rywdro, dyma roi y llun yn storfa anhygoel Llennatur. Gwelais y pry yn yr ardd, roedd ganddo goesau byrion, a

thua 6mm oedd hyd y corff.

**Nigel Owen Pitts**

Meddai Nigel, "gallaf weld bod `na ddau beth sy'n gwneud y pryfyn bach di-nod hwn a cheffyl y cythral yn wahanol. Un peth ydi eu maint, dim ond ryw 6mm ydi hyd corff y pry a welir yn y llun. Ac yn ail, does ganddo ddim gefel (pincers). Er hynny, gallaf weld y tebygrwydd, ond efalla ei fod yn hytrach yn un o'r chwilod `rove`[sef chwilod crwydrol].

## Blaen brigyn – a'i wyau?



**Gavin Jones**

Blaen brigyn, ardal Porthmadog, Mai 27. Ai wyau yr un gwyfyn yw rhain?

Mwy am wyfyn y blaen brigyn a'i guddliw rhyfeddol ym [Mwletin 8 \(tud. 3\)](#)

Cawsom [lun arall](#) o'r un gwyfyn o Ben Llŷn yr un diwrnod gan

**Netta Pritchard**

## Shrwmps a'r tywydd

Un prosiect sydd gan Llên Natur ar y gweill yw casglu cofnodion o gnydau madarch (shrwmps, masharwms). Onid yw maint y cnwd, yn ogystal a'i dymor mewn blynyddoedd arbennig, yn "proxy" (neu arwydd) o'r tywydd a fu yn y misoedd blaenorol? Mae hen bapurau newyddion yn llawn o adroddiadau am y cnwd madarch yn eu hardaloedd. Dyma un ohonynt:

Mehefin 1917: *Mushrooms were picked up on Malvern field, Llangammarch, a few days ago.*

**Radnor express Carmarthen and Swansea Valley gazette and Brynmawr district advertiser 7 Mehefin 1917**

Meddai Bryan Jones, Llangammarch yn ddiweddar: "mae'r ddau gae yn bodoli o hyd, ac yr enw lleol ydi Cwm Malvern. Mae cyfaill i mi yn byw gerllaw iddynt am yn agos i 40 blynedd ac nid yw'n cofio gweld shrwmps yn tyfu yno.

Pa dywydd yn eich barn chi sydd yn rhagdybio tymor da i shrwmps?

## Peli môr



**Llun: Wil Williams**

Dyma un o nifer o beli gwellt a olchwyd ar y penllanw ym mis Mai 2014, Pig Trwyn, Aberffraw. Fe'i casglwyd gan Wil Williams. Ar y dde mae darn o lein bysgota plastig clymog a gafodd Wil y tu fewn i un arall. Ond yn hwyrach casglwyd nifer ohonynt oedd o wneuthuriad y conion gwellt bras yn unig heb gnewyllyn gwahanol.

Ydych chi wedi gweld y fath beth o'r blaen? Sut achoswyd iddo ymfurfio'n belen? Tybed i ba blanhigyn byw oedd y conion bras yn perthyn? DB

Dyma ddywedodd ein harbenigwr morol Sion Roberts:

*Sea Balls....Peli Môr... ynghlwm* llun o un ar draeth Aberdesach rhyw bythefnos nol, a llun o ddau cefais ar fy ngwyliau yn Toulon, Môr y Canoldir.... Mae'r peli yn cael eu creu ar draethau tywodlyd, mae'r lli yn troi brwgaj nol a mlaen ar waelod y mor, wrth ir llanw ddod mewn ac allan. Cyffredin ym Mor y Canoldir. Yno gwellt y gamlas, *Zostera sp.* neu *Posidonia oceanica* yw cynwys y peli... Llanw bychan iawn sydd i Fôr y Canoldir, ychydig droedfeddi ar y mwyaf, ac mae hyn yn hybu ffurfio'r peli, ac fel y gweli'r yn creu rhai mawr hirgrwn. Y trydydd ddelwedd yn dangos *Zostera* ar draeth Porthdinllaen, gweler fod hwn wedi dechrau clymu wrth ei gilydd, tasa hwn heb dirio mi fysa yn hel mwy o wellt fel pelen eira.

Mi fydd pobol sydd yn cadw acwariwm yn gyfarwydd a'r alga *Cladophora*, neu *Marimo* (gair o Japan). Mae'r algae yma yn ffurfio peli mewn rhai llynoedd (mae yna rhai yn yr Alban). Mae'r peli yma yn ffurfio yn yr un modd, ond dylanwad y gwynt sydd yn achosi'r lli rowlio'r alga nol ac ymlaen ar waelod y llyn.

Tybiaf fod stormydd Ionawr wedi cludo gwellt, brwyn a morhesg i'r mor... ac ar ol iddo suddo a phydru mae wedi creu peli mor sydd nawr yn cael eu tiri.

**Sion Roberts**



## Cregyn cowri (!)



Cregyn cowri a gafwyd ar ôl hir chwilio yn y graean ar Big y Trwyn, Aberffraw 21 Mai 2014

Wil Williams a DB

Mae eich Golygydd wedi dysgu sut mae ennyn eich ymateb. Camenwi rhywbeth cyfarwydd. Er enghraifft, camenwais rhain y cregyn cowri (yn gwbl fwiadol wrth gwrs!!). Dyma ddau ymateb:

Cregyn Mair (hefyd cregyn lago) yw rhain. Mae yna ddau rywogaeth ym Mhrydain: *Trivia monacha* a *Trivia arctica*... *Trivia arctica* sydd yn y ddelwedd. Mae rhain yn y teulu *Trividae* (*Trivia* = croesffordd, rhywbeth cyffredin) ac nid yn y teulu *Cypraeidae* sef y gwir cowri. Sion Roberts

Mae gen i lond potel ohonynt wedi eu hel yn yr ardal yna - dros flynyddoedd. Cregyn lago fydda i yn eu galw a lan mor Cregyn ~lago am y bae bach lle byddaf yn chwilio amdanynt. Cefais emwaith wedi eu wneud ohonynt. Cafodd y gof arian oedd yn ei wneud drafferth mawr i ddrilio twll ynddynt - dywedodd eu bod yn hynod o galed. Wedi cael hyd i rai yn y bae pellaf ar Ynys Llanddwynn hefyd. Olwen Evans

Dyma ddywedodd y bardd o Sais John Betcheman yn ei gerdd [Greenaway](#) am gregyn iago.

....And spurting far as it can reach  
The shooting surf comes hissing round  
To heave a line along the beach  
Of cowries waiting to be found.....

## Gwenyn gacwn yn twyllo blodau

Tynnwyd y lluniau hyn ar y 4 Mehefin 2014 yng ngardd Gwelfor, Waunfawr. Mae'r uchaf yn dangos gwenynen gacwn (*Bombus neu bumble bee*) yn tyllu i fôn blodyn neidr i gael "dwyn" y pail nad yw'n gallu cyrraedd trwy geg y blodyn. Mae'n debyg bod tafod y gwenyn hwn yn rhy fyr. Trwy wneud hyn nid yw'r wenynen hon yn cyfrannu dim at y broses o beillioni'r blodyn. Mae'r llun isaf yn dangos ôl y wenynen. Roedd y rhan fwyaf o'r blodau wedi cael y triniaeth o'r fath.

Duncan Brown

Pa rywogaeth o wenynen gacwn yw hon? Gol.



## Gwyfyn yr ermin

Dyma 2 lun o'r lindys 'ma, welodd Emrys a minnau yn Aberdesach, Clynnogfawr heddiw [wythnos olaf Mai, 2014]. Fedrwch chi dd'eud be' ydyn nhw, 'sgwelwchi'n dda? - A pham bod 'na gymaint ohonnyn nhw? Miloedd ar hyd y gwrychoedd ym mhobman, fel petae nhw mewn rhyw gyfnas o wawn dros y perthi, yn edrych fel rhyw bla rhyfedd!

Mari Gwilym  
ac Emrys Jones



Gwyfyn yr ermin yw hwn. Mae sawl math ond yr un mwyaf tebygol dan yr amgylchiadau yw erim bach y drain. Mae'n edrych yn blagus ond go brin y gwelwch i o eto flwyddyn nesaf ar yr un gwrych.

DB

Yn y llyfr Reader's Digest 1984 [dywedir] bod pobol ers talwm wedi dychryn cymaint efo'r pla gwyfynod [pa fath tybed? siobyn cynffon frown?, gwaswyfyn? ermin bach?], nes bod nhw wedi anfon rhai o dlodion cymdeithas i'w hel nhw i gyd oddi ar y gwrychoedd yn Llundain yn 1782, "they were paid a shilling a bushel for the caterpillar's 'tents'. These tents were then burned by churchwardens and special anti-moth prayers were said in churches"!

Mari Gwilym

Roedd 1782 yn oer ac yn wlyb, un o'r gwanwynau oeraf ar gofnod, gydag eira hwyr a glaw trwy'r haf (John Kington, Climate and Weather 2002, Collins NN). [Mwy](#) o Gymru yn y Tywyddiadur





## Dodjars y mefus Holt, Wrecsam



### Gosod gwellt o dan y mefus

Fe dynnwyd ein sylw ym [Mwletin 67](#) (tud. 4) i hanes diwydiant mefus Plougastel yn Llydaw. Ond wyddech chi bod hen ddiwydiant mefus yma yng Nghymru hefyd, ym mhentre Holt, ar gyrion Wrecsam.

Ewch [yma](#) am hanes *Strawberry Dodgers* yr hen Sir Fflint.

Mae'r diwydiannau hyn yn atgoffa dyn o'r diwydiant casglu hopys enwog yng Nghaint. Ewch [yma](#) i weld lluniau rhai o gymeriadau'r diwydiant hwn.

Os mai *dodgers* oedd enw cyweinwyr mefus Holt tybed beth oedd enw casglwyr hopys Caint? Siawns roedd ganddyn nhw enw arnynt nhw eu hunain os oedd ganddyn nhw enw ar wyfyn y [siobyn gwelw](#) oedd yn gyfarwydd iddyn nhw yn y meysydd hopys. Yr *hop dog* oedd hwn, un o'r ychydig enwau gwerinol ar wyfyn y gwn i amdano

## Cynffon twrci

*Tremetes versicolor*, neu gynffon twrci yw hwn. A dyma dwrci go iawn o ardal Caer a dynnais (DB) yn ddiweddar. Dim ond y bardd sy'n llechu yn enaid pob un ohonom sydd yn gweld y cysylltiad.



## Bore Sadwrn diflas Tomi Llywelyn



## Mecryll a llymriaid

Mis Awst 2013: Roedd y gwyr yma yn pysgota am fecryll. Roedd y mecryll yn nofio ar wib i gyfeiriad haig anferth o [lymriaid](#) ger y traeth yng Nghricieth. Wrth geisio denig rhag y mecryll byddai'r llymriaid yn neidio allan o'r dŵr yn donnau swnllyd.

*Sand eels* yw llymriaid... pysgod (nid 'slywod') sydd yn gallu claddu eu hunain yn y tywod i guddio rhag eu gelynyon fel y draenog mor (*sea bass*). Mae hi yn bosib tyllu amdanynt gyda rhaw neu drwy ddefnyddio teclyn o'r enw [vingler](#) - dyma sut ifydda i yn eu dal nhw i ddefnyddio fel abwyd. Mae'r vingler yn debyg i gyllell hir gyda tro bychan fel bachyn ar ei phen, debyg i gyllell chwynnu fysat yn defnyddio



rhwng paving slabs y patio, neu cyllell trin maip. Tynnu

hwn drwy'r tywod mewn hanner cylch o dy flaen i godi'r llymriaid i'r wyneb. Mae rhain yn heigio yn yr haf ac mae mecryll yn eu hela. Weithiau yn y gwanwyn mi fydd yn anodd dal mecryll... ni fydd y pysgod bach wedi dechrau heigio, ac fe welir y mecryll yn nofio

gydai cegau ar agor yn bwydo ar y plankton, a does dim diddordeb ganddynt mewn abwyd na llithiwr.



Llun Gwyn Williams

Sion Roberts

## Eirth Duon yn Nova Scotia.

Mae yna lawer o eirth duon o gwmpas eleni, meddai Liz, "perhaps it is because we had a really hard winter and they are coming nearer human habitation. We have a couple wandering around Tatamagouche – one of them was christened "Teddy" - but I heard they put out a live trap for them for relocation, but don't know whether they got them or not. They have definitely been around my pond, but I haven't actually seen them, just the prints".

This is a great Canadian site about wildlife:

[www.hww.ca/en/species/mammals/black-bear.html](http://www.hww.ca/en/species/mammals/black-bear.html)

Generally they seem more scared of us than we are of them.

E.Spence





## Pont Lloc, Nebo 5 Mai 2014

Dyma lle ron i'n dwad â fy mabi dols i chwara Ty Bach yn yr Afon. Ron i'n rhoi eu dillad i sychu ar yr eithin. Ysgrifennais y pennill hwn pan ro'n i'n tua wyth mlwydd oed


Y bont a fu mor annwyl i'm  
Ym munudau fy mhleutyndod.  
Dwg yn ôl yr hen atgofion  
Yn oriau fy myfyrdod.

Dwin cofio chwara'n draednoeth ar y bont a'r llechen yn llosgi'n traed. Roedd yn ddiddorol ac yn hwyl edrych ar olion ein traed gwlyb yn diflannu mor sydyn ym mhoethder y llechen. Roedd y llechen mor boeth fel ein bod yn gorfod rhedeg ar ei hyd. Roeddwn i hefyd yn cael rasyw cwch brwyn. Roedden yn gwneud llawer o gychod allan o frwyn ac yn cyfri i dri ac yna eu gollwng i'r dŵr ar un ochr i'r bont ac edrych pa gwch fuasa'r cynta i ddod allan yr ochr arall.

Gyda llaw.. Dylsw'n i ddeud bod fy nyled yn fawr i Miss Megan Rowlands, ein hathrawes gynradd o Drefor. Roedd ganddi fwrdd natur yn ei dosbarth. Roedd yn mynd â ni i gyd i fyny i Gors y Llyn cyn bod rheolau iechyd a diogelwch. Roedd yn dangos y blodau gwyllt a'u henwi i gyd yn y Gymraeg i ni.

Anita Myfanwy

Ychydig iawn o atgofion hiraethus plentyndod fel hyn sydd yn Llên Natur. **Melys moes mwy Gol.**



## Penbyliaid yn bwyta cucumerau

Meddwl y buasech â diddordeb mewn gweld y penbyliaid yn gwledda ar giwcymbar!! [llun uchaf]... a dyma [llun isaf] canol y ciwcymbar wedi ei fwyta. Ni wn os yw yn [fwyd] cymwys iddynt ond dwedodd cymdoges ei fod. Buaswn yn hoffi gwybod os nad yw. **Lun Roberts** [Derbynwyd y cofnod ar y 28 Mai 2014]

[Mae hyn yn ddiddorol am ddau reswm: 1) mae penbyliaid yn bwyta cucumer, a 2) mae nhw'n ffafrio yr hadau yn y canol. Sgwn i beth yw'r gwahaniaeth o ran maeth rhwng y canol a'r ymyl? Gol.]



## Rhestr rhywogaethau newydd sbon!



Y fuwch gota felengoch, Penrhyndeudraeth 2009

*Halyzia sedecimguttata*. They have been around through the winter (2009-10)

**John Bratton**

Wedi'i chofnodi yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Coedydd

Maentwrog hefyd

**Paul Williams**

Mae enwau safonol y buchod cwta i'w cael erbyn hyn yn Llyfrgell (isadran Ymchwil) gwefan Llen Natur, neu yn uniongyrchol trwy'r ddolen hon:

[http://llennatur.com/files/u1/BUCHOD\\_CWTA\\_TERFYNOL1.pdf](http://llennatur.com/files/u1/BUCHOD_CWTA_TERFYNOL1.pdf)

Cysylltu [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)

I weld y diweddaraf o bedawr ban byd a mwy eich i'n tudalen Facebook 'Rydym ar Twitter hefyd erbyn hyn